Meddwl am Fewnblaniad Cochlear?

Canllaw i oedolion sy'n meddwl a allai mewnblaniad cochlear eu helpu.


Beth yw mewnblaniad cochlear?

Dyfais clyw yw mewnblaniad cochlear ar gyfer pobl sydd â **cholled clyw difrifol** , ac nad ydynt yn cael digon o help o gymhorthion clyw.

Mae'n gweithio mewn ffordd wahanol i gymhorthion clyw. Yn lle gwneud synau'n uwch, mae'n **troi synau yn signalau** sy'n mynd yn **syth at nerf y clyw**.

Mae dau brif ran i fewnblaniad cochlear:

- **Y mewnblaniad mewnol** – mae hwn yn cael ei osod o dan y croen ar ôl llawdriniaeth. Mae ganddo wifren denau (electrod) yn y glust fewnol sy'n anfon signalau i nerf y clyw.
- **Y prosesydd sain allanol** – mae hwn yn cael ei wisgo tu ôl i'r glust, fel cymhorthydd clyw. Mae ganddo fagnet sy'n glynu ar y mewnblaniad.





A yw mewnblaniad cochlear yn addas i mi?

Efallai eich bod yn addas am mewnblaniad cochlear os:

- Mae gennych **golled clyw difrifol yn y ddwy glust**
- Rydych yn ei **chael yn anodd deall lleferydd**, hyd yn oed gyda chymhorthion clyw da – yn enwedig ar y ffôn neu mewn sgyrsiau grŵp

Mae pobl sy'n cael mewnblaniad cochlear yn aml yn dweud:

- **Eu bod yn dibynnu llai ar ddarllen gwefusau**
- **Ei bod yn haws dilyn sgyrsiau**, yn enwedig wyneb yn wyneb
- **Eu bod yn clywed synau nad oeddent yn eu clywed o'r blaen,** fel canu adar, camau traed neu larymau

---

Beth sy'n digwydd os wyf am wybod mwy?

Nid yw cael eich cyfeirio ar gyfer asesiad mewnblaniad cochlear yn golygu bod yn rhaid i chi gael un. Mae'n gyfle i weld a yw y peth iawn i chi.

1. **Ymweliad cyntaf**
   Byddwch yn cwrdd â rhai o'r tîm mewnblaniad cochlear. Byddant yn **profi eich clyw** ac yn **siarad â chi am eich problemau clyw** a beth rydych yn gobeithio ei gael o'r mewnblaniad.
- **2. Profion pellach**
  Os yw'r ymweliad cyntaf yn dangos y gallai mewnblaniad eich helpu, byddwch yn cael eich gwahodd am **fwy o apwyntiadau**. Gall y rhain gynnwys:Profion clyw pellach
- **Sganiau (er enghraifft MRI neu CT)**
    3. **Cyfarfodydd gydag arbenigwyr** fel awdiolegwyr, arbenigwyr adsefydlu a llawfeddyg**Gwneud penderfyniad**
       Byddwch yn cael **help i benderfynu** a yw mewnblaniad cochlear yn iawn i chi. Nid oes brys – **gallwch gymryd eich amser i benderfynu**. Mae hefyd yn iawn dweud na am y tro a newid eich meddwl yn nes ymlaen.

<u>Beth arall ddylwn i ei wybod?</u>

Mae'r llawdriniaeth fel arfer yn **syml** ac yn cael ei gwneud o dan **anesthetig cyffredinol** (meddyginiaeth sy'n eich rhoi i gysgu).

Weithiau gellir ei gwneud o dan **anesthetig lleol** (tra'ch bod yn effro). Byddwch yn trafod beth yw orau i chi gyda'ch llawfeddyg.

Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn cael **un mewnblaniad** ar y GIG (mae dau yn cael eu cynnig os ydych yn **fyddar ac yn ddall**).

Ar ôl y llawdriniaeth, bydd angen i chi ddod i **apwyntiadau dilynol** a chael help i **ddysgu clywed** gyda'r mewnblaniad. Mae hyn yn cymryd amser, ymdrech ac ymarfer.

Mae profiad pawb yn wahanol. I ddechrau, gall synau **deimlo'n od, yn robotig neu'n atseinio**. Mae hyn yn normal. Dros amser, mae eich ymennydd yn dysgu deall y sain newydd. Mae llawer o bobl yn dweud bod lleferydd yn dod yn **gliriach ac yn fwy naturiol** gydag ymarfer.

Gall clywed mewn **llefydd swnllyd** barhau i fod yn anodd, ond mae llawer o bobl yn gweld bod **gwrando'n gwella dros amser**.

Bywyd bob dydd gyda mewnblaniad cochlear

Ffonau a cherddoriaeth – Gall y rhan fwyaf o broseswyr sain gysylltu â ffonau, teledu neu gerddoriaeth drwy Bluetooth neu ategolion arbennig. Mae llawer o bobl yn gallu gwneud galwadau ffôn a gwrando ar gerddoriaeth eto gyda llawer o ymarfer.

Dŵr a'r tywydd – Maent yn gallu gwrthsefyll dŵr ac mae gan y rhan fwyaf orchuddion rhag dŵr. Gallwch siarad â'ch tîm mewnblaniad cochlear am hyn.

Gwisgo eich prosesydd – Byddwch yn gwisgo'r prosesydd yn ystod y dydd, fel cymhorthydd clyw. Rydych yn ei dynnu i ffwrdd i gael cawod ac i gysgu.

Cwestiynau cyffredin

A fyddaf yn clywed yn syth ar ôl y llawdriniaeth?
Na – fel arfer mae'r mewnblaniad yn cael ei droi ymlaen **1–4 wythnos ar ôl y llawdriniaeth,** er mwyn i'r clwyf wella.

A yw'n llawdriniaeth ar yr ymennydd?
Na – mae'r mewnblaniad yn mynd yn y **glust fewnol**, nid yn yr ymennydd.

A allaf gael sgan MRI wedyn?
Gallwch – mae'r rhan fwyaf o fewnblaniadau modern yn **gydnaws â MRI**, ond rhaid i chi bob amser ddweud wrth y tîm radioleg.

A all pobl hŷn gael mewnblaniad?
Gallant – mae pobl yn eu **80au a'u 90au** wedi cael mewnblaniadau'n llwyddiannus ac wedi gwneud yn dda iawn.

<u>Dod o hyd i ragor o wybodaeth:</u>

- **Grŵp Mewnblaniadau Cochlear Prydain (BCIG)**
  Gwybodaeth am fewnblaniadau cochlear a gwasanaethau
  www.bcig.org.uk
- **Hear Together**
  Cymorth a straeon gan bobl sydd â mewnblaniadau cochlear
  www.heartogether.org.uk
- **Cymdeithas Genedlaethol Defnyddwyr Mewnblaniadau Cochlear (NCIUA)**
  Cyngor a chymorth i ddefnyddwyr mewnblaniadau cochlear
  www.nciua.org.uk